

Datganiad Sefyllfa'r Farchnad Rhwng Ebrill 2020 ac Ebrill 2022

Datganiad i ddarparwyr am ein Gwasanaethau i Blant, gan egluro'r galw cyfredol a'r angen a ragwelir ar gyfer y dyfodol am ein gwasanaethau maethu, gwasanaethau preswyl a gwasanaethau byw â chymorth i'n plant sy'n derbyn gofal.

Cyflwyniad

Mae strategaeth comisiynu lleoliadau (PCS) ar waith sy'n siapio ac yn llywio datblygiad ein gwasanaeth. Cafodd y strategaeth ei chytuno drwy ddadansoddi data o'n poblogaeth sy'n derbyn gofal; ymgynghori â rhanddeiliaid; ymchwilio i'r broses a'r arferion ar gyfer dod o hyd i lety priodol; a gwneud penderfyniadau penodol ar sut i wella deilliannau i blant sy'n derbyn gofal. Rydyn ni bellach yn gallu cyflwyno ein Datganiad Sefyllfa'r Farchnad i gyfleu ein gweledigaeth yn effeithiol ar gyfer comisiynu lleoliadau yn strategol i'r farchnad, sef:

Cyflawni ein Dyletswyddau trwy gynyddu'r dewis o leoliadau a galluogi paru da i'r plentyn, drwy;

- ✓ ffurfio/siapio ein gwasanaethau mewnol
- ✓ gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ac ystod o bartneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat
- ✓ gweithio ar y cyd â phartneriaid yn y sector cyhoeddus ar draws yr ardal Ranbarthol pan fo'n cynnig buddion ae modd eu hadnabod;
- ✓ cyd-weithio i lunio gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau gan gydnabod bod nifer o wahanol ddulliau ar gyfer comisiynu'n strategol gyda phartneriaid amrywiol a allai fod yn fentrau cydweithredol, elusennau neu'n bartneriaid masnachol.

Pwrpas ein Datganiad Sefyllfa'r Farchnad

Mae'r Datganiad Sefyllfa'r Farchnad yma ar gyfer darparwyr maethu (y cyfeirir atyn nhw fel IFAau), darparwyr cartrefi gofal preswyl i blant a darparwyr byw â chymorth sy'n darparu, gallu darparu, neu'n cynllunio er mwyn darparu gwasanaethau yn ein hardal leol. Bydd y ddogfen yma'n helpu i strwythuro'r gwaith o drafod ein gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth yma yn y dyfodol drwy ymgysylltu gyda'r Cyngor, Gwasanaethau i Blant, ein plant sy'n derbyn gofal, eu teuluoedd a'u ffrindiau, cynhalwyr a darparwyr.

Bydd ein Datganiad Sefyllfa'r Farchnad yn:

- Gweithredu'n fan cychwyn ar gyfer trafodaethau rhwng Gwasanaethau i Blant a darparwyr gofal;
- Darparu data ar leoliadau sydd ar gael ar hyn o bryd a rhagweld y galw er mwyn i ddarparwyr wybod am feysydd twf neu angen penodol;
- Nodi meysydd datblygu gwasanaeth â blaenoriaeth lle rydyn am lunio, cydweithredu a chomisiynu gwasanaethau gan ddarparwyr.

Lle nad oes modd cyflawni digonolrwydd am resymau nodedig yn yr ardal leol, mae ymrwymiad ar y cyd i flaenoriaethu digonolrwydd ar draws yr ardal ranbarthol sy'n adlewyrchu ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg ac ardal y Bwrdd Iechyd Lleol. Mae sail yr ymrwymiad yma'n seiliedig ar dystiolaeth, gyda'r bwriad o gefnogi deilliannau gwell i blant sy'n derbyn gofal ac i wneud y defnydd gorau o adnoddau lleol i blant lleol.

Os ydych chi'n ystyried Rhondda Cynon Taf fel lleoliad ar gyfer eich gwasanaeth, rydyn ni'n croesawu sgwrs cyn gynted â phosibl gyda darparwyr i helpu i lywio asesiadau lleoliad a gwneud penderfyniadau ar ddatblygiadau'r gwasanaeth. Rydyn ni'n awyddus i weithio gyda darparwyr sy'n gallu bodloni proffil anghenion ein plant.

Pa Ddeilliannau rydyn ni eu heisiau ar gyfer ein Plant?

Byddwn ni'n sicrhau bod plant yn derbyn gofal mewn lleoliadau diogel sy'n diwallu'r anghenion a aseswyd, i'w galluogi i gyflawni'r deilliannau gorau posibl a chyflawni eu potensial. O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), mae'n cael ei fynegi drwy'r cysyniad o lesiant. Mae'r Consortiwm Comisiynu Plant Cymru (4C) wedi gweithio gyda chomisiynwyr ifainc i nodi deilliannau sy'n bwysig i blant a phobl ifainc ac sy'n cydberthyn i'r Ddeddf. Rydyn ni'n monitro deilliannau'r gwasanaeth yn erbyn y blaenoriaethau yma sy'n canolbwyntio ar blant.

Sgiliau Cynhalwyr a Hyfforddiant

Mae ein harfer gwaith cymdeithasol yn cael ei lywio drwy feithrin teuluoedd cydnerth a sgysiau sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau ac sy'n cael eu dylanwadu gan y Model Adfer Trawma (TRM). Felly mae'n ddefnyddiol os yw cynhalwyr yn cael eu recriwtio, eu hyfforddi a'u cefnogi i weithio mewn ffordd sy'n gyson i gydweithio gyda'n carfanau gwaith cymdeithasol. Fel Awdurdod Lleol, mae modd i ni weithio gyda darparwyr i ychwanegu at hyfforddiant cynhalwyr a darparwyr lle bo angen. Mae Calendr Hyfforddiant Rhanbarthol Cwm Taf ar agor i ddarparwyr lleol.

Adnoddau

Fel y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol Cymru ar hyn o bryd, rydyn ni'n gweithio gyda llai o gyllid, er y pwysau cynyddol o ran y galw am ein gwasanaethau. Roedd gwariant y Cyngor yn 2018/19 yn cynnwys £6,235,067.00 ar gomisiynu lleoliadau gofal maeth allanol a £3,498,660.00 ar ddarparu lleoliadau gofal maeth gyda rhieni maeth mewnol. Ein gwariant ar leoliadau preswyl allanol yn ystod yr un cyfnod oedd £7,348,573.00 ar gomisiynu lleoliadau a £1,282,221.00 ar ddosbarthu lleoliadau preswyl mewnol.

Rydyn ni'n fwy tebygol o gomisiynu gwasanaethau sydd â nodau ac amcanion clir, sy'n targedu adnoddau a darparu tystiolaeth gref o effaith gwerth am arian. Mae cael model gofal sy'n ddealladwy ac yn cael ei ymgorffori ar draws y sefydliad cyfan yn ddatblygiad rydyn ni'n ei groesawu'n llwyr. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

Model Adfer Trawma, MYST a Chynllun Datblygu Adran (DDP). Dylai darparwyr fonitro modelau gofal yn effeithiol i ddangos canlyniadau cadarnhaol.

Mae ymchwil yn dangos bod modelau sy'n gosod disgwyliadau clir gyda dull cyson yn magu hyder staff. Maen nhw'n gwella safon y broses asesu, ymyrraeth, a gwaith uniongyrchol gyda phlant a'u teuluoedd ac yn y pen draw, yn gwella deilliannau i blant. Rydyn ni wedi ymrwymo i weithio gyda darparwyr i gefnogi datblygu eu gwasanaeth ac mae croeso i chi gysylltu â ni i drafod unrhyw ddatblygiadau yn eich gwasanaeth.

Maethu

Y sefyllfa ar hyn o bryd

Rydyn ni mewn sefyllfa dda gyda chydbwysedd da o ddarpariaeth fewnol ac allanol. Rydym ni'n hyderus ein bod yn cyfateb i'r mwyafrif o anghenion plant lleol.

Mae gyda ni nifer fach o blant sydd angen pecynnau gofal cymhleth, lle does dim modd i ni gynnig dewis o leoliad, neu lle dyw'r lleoliadau yma ddim yn cyrraedd y safon uchel yr hoffem ni. Mae angen cymorth arbenigol ar rai o'n plant oherwydd eu hanghenion, sy'n cynnwys:

- trawma,
- ymddygiad heriol,
- problemau rheoli tymer,
- trais corfforol ac ymddygiad ymosodol geiriol., ymddygiad rhywiol amhriodol,
- cam-drin cyffuriau ac alcohol.

Ystadegau Allweddol

Mae ein dibyniaeth ar Asiantaeth Maethu Lleol yn lleihau, gyda 31% (165) o'r lleoliadau maeth (534) yn cael eu trefnu drwy Asiantaeth Maethu Lleol (Rhagfyr 2018)

25% (176) o blant sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal (Rhagfyr 2018), fodd bynnag, mae'r mwyafrif yn cael eu lleoli o fewn Awdurdodau Lleol cyfagos, dim ond 1 lleoliad maeth y tu allan i Gymru a 9 gyda rhieni maeth sy'n perthyn iddyn nhw.

Cafodd 29% (4 o 164) o blant sy'n derbyn gofal eu lleoli heb ei gynllunio ymlaen llaw gyda 21% (35) orall ar sail arafwng

Beth sydd ddim ei angen arnon ni

Dydym ni ddim am gystadlu ag Asiantaethau Maethu Lleol (IFA) am yr un gronfa o bobl. Rydym ni eisiau cydweithio mewn partneriaeth.

Does dim angen cymorth seibiannau byr arnon ni ar gyfer teuluoedd a rhieni maeth, mae'r galw yna'n cael ei ddiwallu'n fewnol.

Does dim angen lleoliadau maeth rhieni a phlant arnon ni. Mae'r galw am y rhain yn brin iawn.

Does dim angen cynhalwyr arnon ni ar gyfer plant ag

Ble rydyn ni eisiau bod

Rydym ni eisiau rhagor o ddewis o leoliadau gofal maeth sy'n gallu cefnogi plant sydd angen cymorth arbenigol.

Rydym ni'n disgwyl i'r gyfradd trosi recriwtio maethu mewnol wella yn y tymor canolig, gan gynyddu'r capasiti a dewis mewnol.

Rydym ni eisiau lleihau nifer y lleoliadau y tu allan i'r ardal - sy'n cael eu gwneud drwy reidrydd yn hytrach nag o ddewis.

Rydym ni eisiau magu perthnasoedd cryf â darparwyr elusennol, cydweithredol a masnachol, gan weithio gyda chi i ddatblygu gwasanaethau a fydd yn ategu'r rhai rydyn ni'n eu darparu'n fewnol.

Mae angen cynhalwyr sy'n:

- * Gydnerth wrth wynebu ymddygiad heriol gan gynnwys bygythiad trais corfforol, ymddygiad ymosodol geiriol, problemau rheoli tymer, ac sy'n fedrus wrth leddfau sefyllfa.
- * Gydnerth ac wedi'u hyfforddi i weithio gyda phlant â thrawma plentyndod, awydd i ddianc, risg o gael eu camfanteisio'n rhywiol, risg o ecsbloetio troseddol, ymddygiadau hunan-niweidio a'r rhai ag ADHD.
- * Gallu cefnogi plant sy'n dilyn amserlenni addysg wedi'u lleihau neu sydd ddim yn mynychu'r ysgol ac a allai gael eu gwahardd o'r ysgol. Mae hyn yn gofyn am hyblygrwydd.
- * Gallu cefnogi plant i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau, gan normaleiddio ymweliadau â theulu lle bynnag y bo modd. Gynhalwyr sy'n gallu gweithio'n rhagweithiol i aduno plant a phobl ifainc â'u teuluoedd.
- * Barod i ofyn am gymorth yn ôl yr angen er mwyn ynnal sefydlogrwydd.
- * Gallu derbyn atgyfeiriadau brys.

Preswyl

Y sefyllfa ar hyn o bryd

Does gan blant a phobl ifainc ddim digon o ddewis o ran lleoliadau ac o ganlyniad, mae'n arwain at ansefydlogrwydd. Mae capasiti a'r gallu i ddiwallu angen yn annigonol ar hyn o bryd.

Mae pwysau penodol wrth nodi lleoliadau addas ar gyfer pobl ifainc sydd angen pecynnau gofal cymhleth, wedi'u cefnogi gan sgiliau amlasiantaethol.

Does dim modd i ni osod plant a phobl ifainc mewn cartrefi preswyl yn yr ardal ddaearyddol leol. Mae nifer o ddarparwyr lleol yn derbyn lleoliadau o'r

Beth sydd ddim ei angen arnon ni

Mae RhCT yn rhedeg 4 cartref preswyl. Mae'r ddarpariaeth fewnol yn cefnogi

- seibiannau byr i blant anabl (1 cartref)
- lleoliadau tymor byr neu dymor hir (2 gartref)
- asesiad brys / uniongyrchol ar sail y tymor byr (1 cartref)

Does dim angen dyblygu gwasanaethau mewnol arnon ni.

Dydyn ni ddim am i gartrefi newydd agor yn ardaloedd Aberdâr, Pontypridd lle mae yna gapasiti'n barod.

Ble rydyn ni eisiau bod

Rydyn ni'n gweithredu model gofal sefydledig, y Model Adfer Trawma ar draws holl ddarpariaeth breswyl RhCT.

Rydyn ni am i ddarparwyr gwblhau asesiadau lleoliad ac ymgynghori â ni cyn prynu eiddo i'w datblygu.

Rydyn ni eisiau perthnasoedd da â darparwyr sy'n gallu cynnig deilliannau cadarnhaol i bobl ifainc sydd angen pecynnau gofal cymhleth ar ben uchaf y continwrm angen.

Rydyn ni am lunio atebion ar y cyd gyda darparwyr lleol mewn ffordd ragweithiol.

Ystadegau Allweddol

Mae 5% (39) o'r holl leoliadau yn cael eu gwneud mewn lleoliad preswyl o'r sector annibynnol. Mae 1% (8) yn cael eu gwneud o fewn darpariaeth fewnol. (Mawrth 2019)

Mae 25% (176) o'r holl leoliadau y tu allan i'r ardal. (Rhagfyr 2018)

Cafodd 10% (17) le y tu allan i Gymru, gyda 4 o'r lleoliadau y tu allan i Gymru ar gyfer pobl ifainc oedd angen pecynnau gofal a chymorth cymhleth.

Cafodd 29% (4 allan o 164) o blant sy'n derbyn gofal lleoliad ar sail heb ei gynllunio, gyda 21% (35) arall ar sail argyfwng. (Mawrth 2018)

Pwy sydd ei angen arnom ni

- * Gweithwyr Gofal Preswyl wedi'u hyfforddi ym maes adfer trawma ac sy'n cynnig gofal empathï.
- * Gweithwyr Gofal Preswyl sydd wedi'u hyfforddi mewn ymyrraeth brys, sy'n gallu gweithio'n bwyllog o dan bwysau cynllunio brys.
- * Cynhalwyr cydnerth wedi'u hyfforddi i weithio gyda thrawma plentyndod, risg o ddianc, risg uchel o gam-drin rhywiol, risg o ecsbloetio troseddol, ymddygiadau hunan-niweidio risg uchel, Plant sy'n Ceisio Lloches ar eu Pennau'u Hunain (UASC) ac ymddygiad Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistaidd (ASD).
- * Cynhalwyr cydnerth wrth wynebu bygythiad o niwed corfforol gan bobl ifainc tuag at gynhalwyr a phlant eraill. Dylai cynhalwyr fod yn fedrus mewn technegau dad-ddwysáu sy'n lleihau ymyriadau corfforol cymaint ag sy'n bosibl.
- * Gwasanaethau sy'n gallu gweithio i aduno plant a phobl ifainc â'u teuluoedd.
- * Gwasanaethau sy'n gallu cefnogi plant a phobl ifainc sydd ag

Pontio â Chymorth

Y sefyllfa ar hyn o bryd

Mae'r ddarpariaeth llety ar gyfer pontio rhwng cyfnodau yn fwch yn ein darpariaeth ac mae disgwyl i'r angen gynyddu o ganlyniad i broffil ein plant a phobl ifainc sy'n derbyn gofal.

Mae Strategaeth Tai yn Gyntaf yn cael ei datblygu o fewn y rhanbarth. Bydd yn mynd i'r afael â'r cyfnod pontio i fod yn oedolyn a chynllunio cyfnodau pontio ar draws Adrannau'r Cyngor.

Mae darparwyr gofal cartref yn cynnig pecynnau cymorth yn ôl yr angen i'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Fodd bynnag, mae'n ateb tymor byr yn hytrach na chynllun tymor hir.

Prin yw'r capasiti o ran cefnogi'r broses

Beth sydd ddim ei angen arnon ni

Fflatiau hyfforddi ar wahân i becynnau cymorth. Dylai'r elfen gymorth fod yn rhan annatod o ddatblygiadau.

Dyw cartrefi aml-feddiannaeth mawr ddim yn debygol o fod yn addas at y diben ar gyfer ein pobl ifainc sydd â'r anghenion cymorth uchaf.

Trefniadau cymorth tenantiaeth tymor byr.

Ble rydyn ni eisiau bod

Hoffem i'n plant a'n pobl ifainc sy'n gadael gofal gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw i fod yn oedolion, er mwyn sicrhau cyfnod pontio sefydlog a diogel, gyda chymorth.

Mae arnom ni angen ystod o lety addas i gefnogi pobl sy'n gadael gofal i ddatblygu'r sgiliau sy'n eu galluogi i symud ymlaen i fod yn annibynnol a chynnal tenantiaethau llwyddiannus a all fod yn gartrefi sefydlog iddyn nhw. Mwy o leoliadau asesu sengl ar gyfer y rhai dros 16 oed.

Ehangu'r ddarpariaeth llety â chymorth, gan archwilio cyfleoedd i wella'r mentora sydd ar gael i bobl sy'n gadael gofal trwy gynllun mentora.

Digonolrwydd ar gyfer cyfnod pontio / symud i ofal maeth

Ystadegau Allweddol

Mae 14% (92) o bobl ifainc sy'n derbyn gofal dros 16 oed ac mae'r ganran yma'n cynyddu. Fe adawodd y mwyafrif o'r bobl eu gofal wrth iddyn nhw droi'n 18 oed (Mawrth 2019).

Plant rhwng 10-15 oed yw'r garfan fwyaf o blant sy'n derbyn gofal fel arfer, felly mae'r duedd yma sy'n dod i'r amlwg erbyn hyn yn debygol o barhau.

Mae gormod o alw am ddarpariaeth fflatiau hyfforddi.

Mae nifer y bobl sy'n derbyn gofal sy'n aros gyda rhieni maeth ar ôl iddyn nhw droi'n 18 oed wedi cynyddu ers 2018.

- * Mae trean yn aros gyda rhieni maeth mewn lleoliadau 'Pan Fydda i'n Barod',
- * Mae trean yn dychwelyd at deuluoedd / ffrindiau
- * Mae trean yn symud i fyw'n annibynnol

Pwy sydd ei angen arnom ni

Byddwn ni'n ymgysylltu ag ystod o ddarparwyr i gomisiynu llety byw â chymorth ar gyfer pobl dros 16 oed sy'n gadael gofal.

Hoffen ni gydweithio gyda darparwyr tai sefydledig a all gynnig cartref sefydlog i bobl sy'n gadael gofal trwy gynnig tenantiaethau tymor hir gyda pheccynnau cymorth hyblyg i ddechrau.

Rhagor o rieni maeth sy'n cynnig lleoliadau 'Pan Fydda i'n Barod'

Mae angen rhieni maeth a fydd yn gweithio'n agos gyda'r ddarpariaeth gofal preswyl i gefnogi'r cyfnod pontio oddi yno i amgylchedd teuluol.

Sut y byddwn ni'n comisiynu gwasanaethau

Byddwn ni'n parhau i ddefnyddio Fframweithiau Awdurdod Lleol Cymru i gomisiynu lleoliadau unigol ar draws mathau amrywiol o leoliadau. Mae'r fframweithiau yma'n sicrhau partneriaethau ar lefel strategol gyda darparwyr mewn gwasanaethau maethu a phreswyl. Mae'r fframweithiau yn cael eu defnyddio lle mae naill ai Dyletswydd Digonolrwydd yr Awdurdod Lleol yn gofyn am gomisiynu allanol neu lle cyflawnir gwell safon, gwerth am arian, a ffordd well o ddarparu deilliannau drwy gomisiynu allanol yn hytrach na darparu gwasanaeth mewnol. Mae Fframweithiau Cymru Gyfan yn cael eu rheoli gan y Consortiwm Comisiynu Plant Cymru (4C).

Rydyn ni'n defnyddio'r Adnodd Cymorth Comisiynu Plant (CCSR) ar gyfer e-dendro lleoliadau maethu a phreswyl allanol. Mae'n cynnig ffordd eglur sy'n canolbwyntio ar gomisiynu lleoliadau sy'n cynnwys lleoliadau a reoleiddir gan y Fframwaith yn ogystal â lleoliadau tu hwnt i'r Fframwaith ac mae'n caniatáu cydymffurfio â'r canllawiau a rheoleiddio caffael perthnasol sy'n sail i'n comisiynu. Rydyn ni am i'n darparwyr y farchnad gael eu cofrestru ar Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant er mwyn ymateb i dendrau sy'n cael eu cyflwyno.

Ar gyfer tendrau arbennig neu fwy o faint rydyn ni'n defnyddio 'Gwerthwch i Gymru' ac mae angen i ddarparwyr y farchnad gofrestru ar y wefan yma i ymateb i dendrau sy'n cael eu cyflwyno.

Cymorth y byddwn ni'n ei gynnig i ddatblygu gwasanaethau

Rydyn ni am weithio ar y cyd â darparwyr o safon i ddatblygu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnom ni. Mewn meysydd penodol, mae modd nodi dull o greu ar y cyd gyda chydannau adnoddau sy'n cael ei rannu rhyngom ni a darparwyr sy'n gweithio mewn ffordd integredig fel y dull gorau. Mae cyfleoedd ar gyfer trafodaethau ar gydgyhyrchu yn cael eu hyrwyddo ar draws y farchnad.

Rydyn ni'n defnyddio dull comisiynu sy'n seiliedig ar berthnasoedd wedi'i ategu gan brosesau caffael sy'n cydymffurfio. Credwn fod defnyddio systemau e-gaffael yn effeithiol sy'n gallu ategu comisiynu perthnasoedd yn hytrach na chomisiynu trafodion, gydag ethos cadarnhaol a fabwysiadwyd gan bartneriaid.

Byddwn ni'n hwyluso achlysuron ar gyfer darparwyr presennol a darpar ddarparwyr yn flynyddol. Bydd yr achlysuron yma yn cyd-fynd gydag achlysuron ymgysylltu â darparwyr rhanbarthol a chenedlaethol.

Byddwn ni'n defnyddio fforymau ac achlysuron ar lefel ranbarthol a chenedlaethol i ymgysylltu â darparwyr. Mae'n bosibl y bydd y rhain yn cael eu cynnal gan y 4C neu Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Rydyn ni'n annog darparwyr i fynychu'r achlysuron yma, sy'n werthfawr o ran rhannu gwybodaeth a rhwydweithio.

Byddwn ni'n sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed trwy barhau i gefnogi plant sy'n derbyn gofal i ddylanwadu ar ein penderfyniadau comisiynu a byddwn ni bob amser yn ymgynghori â nhw i lunio'r gwasanaethau y maen nhw eu heisiau.

Mae'r Datganiad Sefyllfa'r Farchnad yma'n ddogfen fyw a fydd yn cael ei diweddarau dwywaith y flwyddyn neu bryd bynnag y bydd angen i ni rannu newidiadau allweddol.

Cysylltu â ni

- Comisiynu - 4Cs@rctcbc.gov.uk 01443 570098
- Contractio - Rheolwr y Garfan Lleoli Sarah Rees sarah.rees2@rctcbc.gov.uk